

POLISI IECHYD A DIOGELWCH GWAITH MAES

Dyddiad	Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid	Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei Gwblhau
4 Mai 2015	Y Cyhoeddiad Cyntaf	
27 Chwefror 2020	Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau	14 Hydref 2019

Swyddog Polisi	Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Pennaeth Iechyd a Diogelwch	Ysgrifennydd y Brifysgol	Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch	4 Mai 2015

Caiff y Polisi hwn ei adolygu nesaf yn 2023

1. RHAGARWEINIAD

Os na chaiff gwaith maes ei gynllunio a'i reoli'n briodol gall fod yn bur beryglus, oherwydd mae'r gwaith yn cael ei wneud i ffwrdd oddi wrth reolaeth a goruchwyliaeth uniongyrchol y Brifysgol, a'i chefnogaeth brydlon pe bai argyfwng yn digwydd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y dylid osgoi gweithgareddau dim ond oherwydd y gall fod rhywfaint o risg yn gysylltiedig â hwy. Yn hytrach, dylid sefydlu mesurau i sicrhau bod risgiau a dulliau o'u rheoli'n cael eu hystyried yn ystod y camau cynllunio fel y gellir gwneud gwaith maes yn ddiogel.

Rhaid cofio bod y rhan fwyaf o waith maes yn cael ei wneud mewn amgylcheddau lle mae risg yn gymharol isel, neu'n ymwneud â gweithgareddau beunyddiol fel ymweld ag amgueddfeydd neu fannau hygrych cyhoeddus fel traethau neu lwybrau mynydd rhwydd. Weithiau bydd mwy o risg gyda gweithgareddau gwaith maes a bydd angen rhoi mwy o ystyriaeth iddynt a chamau rheoli ychwanegol; er enghraifft, ymchwil cymdeithasol, casglu planhigion ar ochrau clogwyni, casglu gwenwyn nadroedd, gwaith mewn chwareli neu amgylcheddau garw eraill, megis anialwch.

2. Y DATGANIAD POLISI A'I GWMPAS

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib, ac yn unol â'r gofynion statudol perthnasol ac arferion da, yw sicrhau iechyd a diogelwch y staff, y myfyrwyr ac ymwelwyr â'r Brifysgol.

Mae gwaith maes yn agwedd werthfawr ar addysgu a dysgu, ac yn aml mae'n rhan hanfodol o ymchwil. Mae'r Polisi hwn yn nodi'r gofynion sydd ar y Brifysgol a'i Cholegau o ran rheoli gwaith maes at ddibenion addysgu ac ymchwilac mae'n ceisio hybu a chefnogi gweithgareddau gwaith maes er mwyn sicrhau eu bod yn mynd rhagddynt heb gyfyngiadau diangen.

Mae'r Polisi yn nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau cyffredinol Goruchwylwyr Academaidd, Arweinwyr Gwaith Maes a Goruchwylwyr Gwaith Maes, staff, myfyrwyr a chontractwyr a darparwyr trydydd parti sy'n gysylltiedig â gwaith maes.

Ategir y Polisi gan ddogfennau cyfarwyddo sy'n cynghori'r Colegau ynghylch yr hyn y mae angen iddynt ei wneud wrth drefnu a rheoli gweithgareddau gwaith maes.

Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol:

- Colegau sy'n trefnu gweithgareddau a theithiau maes.
- Staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan yng ngwaith maes y Brifysgol.

Nid yw'r Polisi'n berthnasol i'r isod:

- Lleoliadau Gwaith yn y Brifysgol neu mewn mannau eraill.
- Mynd i gynadleddau a chyfarfodydd.
- Gwaith sy'n defnyddio cyfleusterau sefydliadau eraill.
- Teithio dramor ar daith maes (*gweler y Polisi Teithio Tramor*).

NODIADAU: Nid yw gwaith maes yn cynnwys lleoliadau gwaith, defnyddio cyfleusterau mewn sefydliadau eraill neu deithio i ddibenion busnes a mynd i gyfarfodydd a chynadleddau i ffwrdd o'r Brifysgol. Dylid dilyn trefniadau diogelwch safonol yn achos y gweithgareddau hynny.

Mae dwy elfen wahanol i waith maes tramor, sef teithio i'r fan lle gwneir y gwaith maes, a'r gwaith ei hun a gyflawnir yno. Mae'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn ystyried yr elfen 'gwaith maes' yn unig; dylai'r colegau, y staff a'r myfyrwyr droi at y Polisi Teithio Tramor i gael gwybodaeth am deithio dramor.

3. POLISIAU A DEDDFAU CYSYLLTIEDIG

Dyletswyddau cyffredinol y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac yn y blaen. ac yn y blaen a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, yn berthnasol i'r holl weithgareddau sydd o dan reolaeth neu gyfarwyddyd y Brifysgol gan gynnwys gweithgareddau oddi ar y safle, megis gwaith maes.

Mae'r gweithdrefnau a nodir yn y ddogfen ategol Gweithdrefnau Rheoli Gwaith Maes yn manylu ynghylch y trefniadau penodol y dylai'r Colegau eu sefydlu i reoli risgiau gwaith maes; yn unol â'r gofynion deddfwriaethol, disgwyliaidau'r Brifysgol a chanllawiau penodol Cymdeithas Diogelwch ac Iechyd y Prifysgolion (USHA) ar *Iechyd a Diogelwch mewn Gwaith Maes a Theithio*.

Mae'r Llawlyfrau ategol a'r dogfennau templed a luniwyd i gynorthwyo Goruchwylwyr Academaidd, Arweinwyr a Goruchwylwyr Gwaith Maes wrth gynllunio gwaith maes yn ceisio adlewyrchu egwyddorion canllawiau UCEA a Safon Brydeinig BS8848 a luniwyd i ddarparu ymweliadau, gwaith maes, teithiau a gweithgareddau anturus y tu allan i'r Deyrnas Unedig), gan roi ystyriaeth briodol i lefel y risg a gweithredu camau rheoli realistig.

4. DIFFINIADAU / TERMINOLEG

Defnyddir y diffiniad isod at ddibenion y Polisi hwn:

- Gwaith Maes: Gwaith a gyflawnir gan staff neu fyfyrwyr i'r prif ddiben o addysgu a/neu ymchwil mewn lleoliadau i ffwrdd o'r Brifysgol lle bo'r Brifysgol yn parhau'n gyfrifol am ddiogelwch ac iechyd y staff a/neu'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan ac eraill y mae eu gweithgareddau'n effeithio arnynt.

5. DYLETSWYDDAU'R BRIFYSGOL

Bydd y Brifysgol yn gwneud y canlynol:

- Sefydlu, trwy'r Polisi hwn a'i ddogfennau cysylltiedig, system reoli sy'n anelu at hyrwyddo gwaith maes gan reoli'n briodol y risgiau i'r rhai sy'n cymryd rhan ac eraill y gall y gwaith maes effeithio arnynt.
- Darparu adnoddau digonol i gefnogi gweithredu'r Polisi hwn.
- Yn unol â system rheoli iechyd a diogelwch y Brifysgol, dirprwyo'r ddyletswydd i weithredu'r Polisi hwn i Ddeoniaid y Colegau a'r goruchwylwyr academaidd, Arweinwyr Gwaith Maes a Goruchwylwyr Gwaith Maes cymwys.

6. CYFRIFOLDEBAU'R COLEG

Mae pob coleg yn gyfrifol am weithredu'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau y gwneir y gwaith maes heb risg sylweddol i'r rhai sy'n cymryd rhan. Bydd pob Coleg yn gwneud y canlynol:

- Nodi'r gweithgareddau gwaith maes a chynllunio ar gyfer y rheiny i sicrhau bod y camau rheoli angenrheidiol ar waith.
- Sefydlu dull priodol o gymeradwyo gwaith maes, sy'n addas i lefel y risg a rhoi ystyriaeth i bolisiau a chamau rheoli eraill y Brifysgol (e.e. Moeseg, y Polisi Teithio Dramor).
- Sicrhau bod staff ac eraill sy'n cynllunio a goruchwylio gwaith maes yn ddigon profiadol a medrus i wneud hynny.
- Cynnal asesiad risg o weithgareddau gwaith maes a rhoi gwybod am y canfyddiadau a'r rheolaethau i gyfranogwyr ac eraill fel bo'n briodol.

- e. Sicrhau yr ystyrir ffactorau eraill ac y rhoddir sylw iddynt fel bo angen, e.e. cymeradwyaeth Awdurdodau Rheolaethol, y gofynion deddfwriaethol, yswiriant digonol, polisi diogelwch bysiau mini'r Brifysgol.
 - f. Ceisio sicrhau bod gwaith maes yn gynhwysol, lle bo'n bosibl, gan gymryd i ystyriaeth anghenion a galluoedd y rhai a all gymryd rhan ynddo yn unol ag ysbryd y Ddeddf Cydraddoldeb.
 - g. Sicrhewch fod yr holl offer a'r deunyddiau sydd i'w defnyddio yn ystod gweithgareddau'r gwaith maes yn addas ac yn ddiogel, gan gadw cofnod o archwiliadau'r offer, gwaith cynnal a chadw ac ati fel bo'n briodol.
 - h. Darparu offer amddiffynnol personol, neu bennu y dylid gwisgo offer o'r fath, fel bo'n briodol i'r gweithgaredd gwaith maes.
 - i. Cadarnhau bod darparwyr gwaith maes trydydd-parti yn gymwys ac yn gweithredu camau rheoli tebyg neu helaethach na'r rhai a bennir yn y Polisi hwn.
 - j. Rhoi gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas i bawb fydd yn cymryd rhan mewn gwaith maes a fydd yn eu galluogi i ddeall natur y risgiau cysylltiedig a sut caiff y risgiau hyn eu rheoli.
 - k. Nodi a rhoi gwybod i gyfranogwyr am y costau a'r gofynion y mae cyfranogwyr yn gyfrifol amdanynt.
 - l. Sefydlu dulliau gweithredu addas mewn argyfwng, fel bo'n briodol yn ol lefel y risg.
 - m. Sicrhau yr ymchwilir i ddamweiniau a digwyddiadau yn ystod gwaith maes ac y gweithredir yn briodol, yn cynnwys rhannu'r canfyddiadau o fewn y Coleg ac/neu'r sefydliad fel bo'r angen.
 - n. Adolygu'n rheolaidd y trefniadau sydd i reoli gwaith maes a chydymffurfio â'r Polisi hwn.
- Cewch ragor o wybodaeth yn y ddogfen Gweithdrefnau Rheoli Gwaith Maes.

7. DYLETSWYDDAU GORUCHWYLWYR ACADEMAIDD, ARWEINWYR GWAITH MAES A GORUCHWYLWYR GWAITH MAES

Mae gan Oruchwylwyr Academaidd, Arweinwyr Gwaith Maes a Goruchwylwyr Gwaith Maes ddyletswydd i gydymffurfio â'r Polisi hwn a systemau a threfniadau rheoli gwaith maes eu Colegau i sicrhau y caiff risgiau eu hystyried a'u rheoli'n addas.

Dylai unrhyw un sy'n cynllunio ac yn goruchwyllo gwaith maes bob amser geisio sicrhau iechyd, diogelwch a lles pawb sy'n cymryd rhan ac eraill y mae gweithgareddau'r gwaith maes yn effeithio arnynt. Mae hynny'n cynnwys sicrhau, lle bo hynny'n briodol, bod asesiad risg addas ar waith a bod hwnnw'n cael ei gynnal a'i gyfleu mewn modd amserol i'r holl bobl berthnasol.

Mae'n hanfodol bod Goruchwylwyr Academaidd, Arweinwyr Gwaith Maes a Goruchwylwyr Gwaith Maes yn deall cyfyngiadau eu gwybodaeth a'u profiad eu hunain, ac yn gofyn am gyngor a/neu gymorth gan eraill fel bo'r angen.

8. CYFRIFOLDEBAU CYFRANOGWYR Y GWAITH MAES

Mae dyletswydd ar bob aelod o'r staff, y myfyrwyr a'r bobl eraill sy'n cymryd rhan yn y gwaith maes i ddilyn unrhyw ofynion a sefydlwyd er iechyd a diogelwch gan gynnwys gofalu am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac unrhyw rai eraill y gallai eu gweithredoedd effeithio arnynt. Yn ogystal â hynny, rhaid i bawb sy'n cymryd rhan yn y gwaith maes wneud fel a ganlyn:

- a. Mynd i sesiynau gwybodaeth neu hyfforddiant perthnasol am waith maes.

- b. Rhoi gwybod am bryderon, gan gynnwys eu gallu i gymryd rhan yn y gwaith maes i'w Goruchwylydd Academaidd, Arweinydd / Goruchwylydd y Gwaith Maes neu Gydlynnydd Iechyd a Diogelwch yr Ysgol / Coleg.
- c. Dilyn yr holl gyfarwyddiadau, y camau rheoli a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r gwaith maes a wneir.
- d. Cydweithredu â'r rhai sy'n gyfrifol am reoli'r gwaith maes.
- e. Peidio ag ymyrryd â'r deunyddiau a'r offer a ddarperir at ddibenion iechyd a diogelwch, na'u camddefnyddio.
- f. Rhoi gwybod yn syth am unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau'n gysylltiedig â'r gwaith maes fel b) uchod.

9. ASESIAID EFFAITH CYDRADDOLDEB

Rhaid gwneud pob ymdrech i gefnogi unigolion er mwyn eu trin yn gyfartal a'u galluogi i ymgymryd â'u tasgau yn yr un modd â'u cyfoedion.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion prin iawn, efallai y bydd angen trin 'pobl sydd â nodwedd warchoddedig' *yn wahanol er mwyn diogelu eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles hwythau. Caiff unrhyw ystyriaethau o'r fath eu trafod gyda'r unigolyn a chytunir ynglŷn ag addasiadau rhesymol.*

10. GWEITHDREFNAU MONITRO AC ADOLYGU

Gall Llywodraethu a Chydymffurfio ac Iechyd a Diogelwch gynnal archwiliadau neu adolygiadau achlysurol i asesu effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth â'r Polisi hwn.

Rhaid i'r Colegau / Gwasanaethau Proffesiynol adolygu eu dulliau gweithredu eu hunain o bryd i'w gilydd, i sicrhau bod gofynion y Polisi hwn yn cael eu gweithredu, a'u bod yn addas ac yn effeithiol.

Bydd y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn adolygu'r Polisi hwn yn unol â'r Amserlen Adolygu y cytunwyd arni, a bydd Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol yn ystyried unrhyw newidiadau sylweddol.

Diwedd.